Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Trefnwyd archwiliad deintyddol o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn ysgol eich plentyn yn ystod y flwyddyn academaidd hon, 2023-24. Mae hyn yn rhan o raglen arolwg cenedlaethol a gynhelir yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r archwiliad yn cynnwys archwiliad gweledol byr o'r geg — gweler y daflen wybodaeth ar y dudalen nesaf am ragor o wybodaeth am yr hyn y mae'n ei olygu. **Nid** yw hyn yn cymryd lle apwyntiadau deintyddol rheolaidd eich plentyn ac ni fydd unrhyw driniaeth yn cael ei chyflawni yn ystod yr archwiliad hwn.

Bydd y broses archwilio'n ein galluogi i gynllunio darpariaeth gwasanaethau iechyd y geg a deintyddol, i helpu i sicrhau bod gan blant ddannedd iachach. Dim ond y lleiafswm o wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu (cod post, mis a blwyddyn geni) ynghyd â gwybodaeth am gyflwr dannedd ac iechyd ceg y plant. Bydd yr holl ddata'n ddienw, felly ni fydd modd adnabod eich plentyn. Helpwch ni drwy ganiatáu ac annog eich plentyn i gymryd rhan.

Nid yw'r archwiliad hwn yn cymryd lle archwiliad deintyddol. Dylech fynd â'ch plentyn at y deintydd fel arfer. Os nad oes gan eich plentyn ddeintydd, gallwch gysylltu â GIG 111.

Byddwn yn siarad gyda’ch plentyn am yr archwiliad, yn egluro beth mae'n ei gynnwys, a bydd yn cael cyfle i ofyn cwestiynau. Yna byddwn yn gofyn am gydsyniad eich plentyn.

Os **nad** ydych chi am i'ch plentyn gymryd rhan, cysylltwch ag ysgol eich plentyn erbyn 28/03/24.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr archwiliad deintyddol, mae croeso i chi gysylltu â fi: 03000 850009.

Yn gywir,

D. R. Barber

Dr David Barber
Uwch Swyddog Deintyddol a Chydlynydd Arolwg Lleol

**Beth fydd yr archwiliad yn ei olygu?**
Cyflawnir yr archwiliad deintyddol gan weithwyr deintyddol proffesiynol y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol lleol.

- Cynhelir yr holl archwiliadau yn yr ysgol. Ni fydd gofyn i chi fynd â'ch plentyn i unman i gael yr archwiliad.
- Bydd y deintydd neu'r therapydd deintyddol yn gwneud archwiliad gweledol byr o geg eich plentyn. Bydd yn edrych o gwmpas dannedd a deintgig y plentyn, yn debyg i archwiliad deintyddol arferol. Ni fydd hyn yn anghyfforddus. Efallai y bydd hefyd yn defnyddio golau er mwyn gweld y tu mewn i geg eich plentyn yn well. Bydd hefyd yn gofyn 6 chwestiwn i'ch plentyn ynghylch a yw wedi cael unrhyw broblemau deintyddol yn ystod y mis diwethaf neu wedi ymweld â deintydd.
- Caiff yr holl offer eu sterileiddio neu eu newid rhwng pob plentyn a bydd pob aelod o'r tîm yn gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (e.e. mwgwd, fisor, a menig).
- Byddwn hefyd yn tynnu lluniau clinigol o ddannedd plant a ddewisir ar gyfer y Digwyddiad Hyfforddi a Graddnodi

**Rhagor o fanylion am y wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r rheolydd data ar gyfer gwybodaeth eich plentyn. Ni chaiff unrhyw wybodaeth ei chyhoeddi sy'n adnabod eich plentyn. Cedwir gwybodaeth am eich plentyn yn ddiogel mewn ffeiliau dan glo yn ein swyddfeydd a/neu ar gyfrifiaduron a warchodir gan gyfrinair.

Caiff y wybodaeth ei rhannu gydag Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd i'w phrosesu ac fe'i goruchwylir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Byddwn yn cadw gwybodaeth eich plentyn am dair blynedd, yna byddwn yn ei dinistrio'n ddiogel. O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (a elwir yn GDPR), y sail gyfreithlon yr ydym yn dibynnu arni ar gyfer defnyddio gwybodaeth eich plentyn yw bod ei hangen arnom i gyflawni tasg gyhoeddus.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y caiff eich gwybodaeth ei phrosesu yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data, gweler hysbysiad: dhcw.nhs.wales/ig/ig-documents/ig-framework/all-wales-information-governance-policy-v1-pdf/

Mae eich hawliau yn bwysig. Gallwch chi wneud y canlynol:

- gofyn am gael gweld y wybodaeth sydd gennym am eich plentyn.
- gofyn i ni wneud newidiadau i'r wybodaeth sydd gennym am eich plentyn.
- gofyn i ni ddileu gwybodaeth am eich plentyn.
- gofyn am gopïau o'r wybodaeth sydd gennym am eich plentyn.
- gofyn i ni roi'r gorau i brosesu gwybodaeth am eich plentyn.

**Sut i ofyn cwestiynau neu gwyno**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am ein defnydd o wybodaeth bersonol eich plentyn, gallwch ofyn cwestiwn neu wneud cwyn i Dr David Barber Chydlynydd Arolwg Lleol Canolfan Ddeintyddol Alexandra, Y Rhyl, LL18 3AS (03000 850009)

Gallwch hefyd gwyno i'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn anhapus â'r ffordd rydym wedi defnyddio data eich plentyn. Cyfeiriad yr ICO yw: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, SK9 5AF. Rhif llinell gymorth: 0303 123 1113. Gwefan yr ICO: https://www.ico.org.uk